

Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru

Dydd Iau 20 Medi 2018

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol:

Cadeirydd

Andrew Jacobs

Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Paul Neave	Cynhwysiant Ariannol
Charlotte Anscombe	Cynhwysiant Ariannol
Eryl Loring	Cynhwysiant Ariannol
Connor Wigfall	Cynhwysiant Ariannol
Catherine Lawton	WEFO / Cynhwysiant Ariannol
Sally Hunt	Equalities & Prosperity

Aelodau

Helene Hayes	Cyngor ar Bopeth Cymru
Selina Moyo	Tai Cymunedol Cymru
Lee Phillips	Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Graham Roberts	Adran Gwaith a Phensiynau
Jocelle Lovell	Canolfan Cydweithredol Cymru
Jonathan Brenchley	Banc Barclays
Lisa Hayward	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
George Jones	Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn

Ymddiheuriadau:

Liz Emmons	Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
Leanne Herberg	Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Carol James	Adran Addysg Llywodraeth Cymru

1. Croeso, Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Charnau Gweithredu

- 1.1 Croesawodd Andrew Jacobs (AJ) bawb i'r cyfarfod a chyflwyno dau aelod newydd o Uned Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru - Connor Wigfall, a Cath Lawton sydd ar gyfle hyfforddiant dros dro o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Hefyd, estynnwyd croeso i aelod newydd o'r Grŵp Llywio, George Jones, o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn, sy'n cymryd lle Iwan Williams.
- 1.2 Dywedodd AJ wrth y cyfarfod fod nifer o aelodau wedi gadael y Grŵp, Farida Aslam o Gymdeithas Tai Sir Fynwy; Ian Albert sydd wedi ymddeol o'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Iwan Williams sydd wedi symud ymlaen o'i rôl yn Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

1.3 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 fel rhai cywir.

1.4 Camau gweithredu – mae'r rhan fwyaf o gamau'r cyfarfod diwethaf wedi'u cwblhau, a chafwyd y diweddariadau canlynol am y camau sy'n dal i fynd rhagddynt:

- Mae gwerthusiad o Sgyrsiau Ariannol Cyngor ar Bopeth a thueddiadau Cyngor Iechyd Meddwl ar gael i'w rhannu, ac mae'r dolenni cyswllt ar gael yn Atodiad A.
- Ni chafwyd unrhyw ymateb gan FCA am alwad Cyngor ar Bopeth i roi cap ar log yn y farchnad rhentu i brynu.
- Dewis Cymru – mae'r trafodaethau'n parhau – os oes gan y Grŵp Llywio ragor o gwestiynau, bydd Lisa Hayward (LH) CLILC yn falch o'u trosglwyddo i Data Cymru sy'n gyfrifol am y wefan.
- Ymchwil Prifysgol Abertawe ar gynhwysiant digidol a'r credyd cynhwysol – manylion cyswllt newydd ar gael.
- Wythnos Gallu Ariannol – Siarad am Arian Cymru – parhaus, mae rhagor o fanylion yn niweddariad y Gwasanaeth Cyngori Ariannol isod.

2. Diweddariad ar y Gwasanaeth Cyngori Ariannol (MAS)

2.1 Rhoddodd Lee Phillips (LP) y wybodaeth ddiweddaraf am waith presennol MAS:

2.2 Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar ei ffurf bresennol ar fin dod i ben, a bydd corff canllawiau unigol newydd ar gyllido yn cael ei lansio yn y flwyddyn newydd. Bydd gan y corff enw newydd, ond does dim manylion eto. Dechreuodd y Prif Swyddog Gweithredol newydd - John Govett, a'r Cadeirydd Syr Hector Sants ar eu gwaith ar 1 Hydref 2018. Bydd holl staff cyfredol y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn trosglwyddo i'r corff newydd ym mis Ionawr 2019.

Wythnos Siarad am Arian 12 – 18 Tachwedd 2018

2.3 Cynhelir wythnos gallu ariannol eleni rhwng 12 ac 18 Tachwedd. Mae'r enw 'Wythnos Siarad am Arian / Talk Money Week', a ddechreuodd yma yng Nghymru, bellach wedi'i mabwysiadu ledled y DU.

2.4 Cynhelir digwyddiad yng Nghastell Caerdydd ar 15 Tachwedd, tebyg i'r un yn y Senedd y llynedd. Yr un fydd y drefn, gyda chyfres o siaradwyr yn cael slot 5 munud i sôn am eu gweithgarwch a pham mae'n bwysig.

2.5 Mae llawer o sefydliadau eisoes wedi trefnu gweithgareddau, gan gynnwys Youth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Adeiladu'r Principality a'r Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon. Gofynnodd LP i'r aelodau roi gwybod iddi os ydyn nhw'n gwybod am unrhyw weithgaredd arall sy'n cael ei gynnal er mwyn ei gynnwys ar fap digwyddiadau Siarad am Arian.

2.6 Gofynnodd LP i'r aelodau ddefnyddio'r hashnod #siaradariancymru #talkmoneywales cymaint ag sy'n bosib yn ystod yr wythnos, ac annog

rhwydweithiau eraill i wneud yr un fath, hyd yn oed os taw dim ond i dynnu sylw at wasanaeth sydd ar gael gydol y flwyddyn ond sydd hefyd yn digwydd bod yn rhan o ddigwyddiadau'r wythnos arbennig hon. Mae'n gyfle delfrydol i ddathlu a thynnu sylw at waith sy'n cael ei wneud o Fôn i Fynwy er mwyn cefnogi gallu ariannol.

- 2.7 Holodd Paul Neave (PN) a oedd cyfle i gynnwys awdurdodau lleol yn ystod Wythnos Siarad am Arian. Cadarnhaodd Lisa Hayward (LH) y byddai'n hyrwyddo'r cyfle i siarad yn nigwyddiad Castell Caerdydd drwy'i rhwydweithiau CLILC.

Camau gweithredu:

- Aelodau'r Grŵp Llywio i ddefnyddio'r hashnod #siaradariancymru / #talkmoneywales yn ystod wythnos 12 – 18 Tachwedd.
- LP i ddarparu rhestr o'r holl gyfrifon Twitter eraill y gellir eu cynnwys mewn negeseuon e.e. cyfrif Lee Phillips, Llywodraeth Cymru, Strategaeth FinCap ac ati.
- LH i annog awdurdodau lleol i gymryd rhan.

Prosiect rhianta Siarad Dysgu Gwneud (TLD)

- 2.8 Mae'r gwaith maes ar werthuso prosiect Siarad Dysgu Gwneud bellach wedi'i gwblhau ac mae casgliadau'r adroddiad drafft yn gadarnhaol iawn. Cynhelir digwyddiad lansio swyddogol ar 1 Hydref yng Nghanolfan y Mileniwm, mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr a ariannodd y fenter.

- 2.9 Cafwyd adborth cadarnhaol gan ymarferwyr hefyd, nes eu bod nhw'n awyddus i barhau i gyflwyno'r rhaglen gan ei bod yn cael cymaint o effaith. Mae wedi profi'n ymyriad rhad sy'n gwneud byd o wahaniaeth i rai sy'n gysylltiedig ac mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wrthi'n cyflwyno'r rhaglen ledled Cymru. Roedd AJ yn cytuno petai tystiolaeth i gefnogi ei lwyddiant, dylai nid yn unig cael ei gynnwys yn rhaglenni Llywodraeth Cymru ond hefyd ei hyrwyddo gan bartneriaid eraill sy'n ei gyflwyno yn y gymuned, felly byddai'n annog aelodau i gymryd rhan.

Cynllun Comisiynu Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc

- 2.10 Yn ddiweddarach eleni, bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cwblhau ei Gynllun Comisiynu Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc cyntaf, sy'n nodi'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau er mwyn sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru a'r DU yn cael addysg ariannol gwerth chweil. Bydd y cynllun yn gosod y cyfeiriad o ran cyllido, dylanwad a gwaith ymchwil ar addysg ariannol yn y dyfodol.

- 2.11 Cynhelir gweithdy yng Nghaerdydd ar 10 Hydref ac rydym yn annog holl aelodau'r Grŵp i'w fynychu. Bydd yn gyfle i helpu i lywio argymhellion comisiynu a chyfeiriad gwaith y dyfodol ar addysg ariannol.

Cam gweithredu:

- LP i anfon gwahoddiadau i'r 3 digwyddiad at Eryl Loring (EL) i'w hanfon ymlaen at aelodau'r Grŵp Llywio.

Cronfa Beth sy'n Gweithio

- 2.12 Mae 58 o brosiectau wedi'u cyflwyno ar hyd a lled y DU hyd yma, saith ohonynt yng Nghymru
- Youth Cymru
 - School of Hard Knocks
 - Gingerbread
 - Age Cymru
 - Tenovus
 - Cyngor ar Bopeth – Money Talks
 - Canolfan Cydweithredol Cymru – Your Money Your Home

Mae'r holl adroddiadau gwerthuso terfynol ar gael ar-lein, a gallwch eu darllen ar [Evidence Hub](#) gwefan FinCap.

3. Diweddariad Llywodraeth Cymru

- 3.1 Dywedodd Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau y bydd cyngor ar ddyledion yn cael ei ddatganoli o 1 Ionawr 2019, ond nid y maes cyngori ariannol. Felly, mae'n bwysig gweld sut allwn ni helpu i'w integreiddio. Os oes unrhyw enghreifftiau o arferion da, rhwch nhw i LP er mwyn cydlynu'r cyfan.

Cam gweithredu: LP i anfon y ddolen berthnasol at EL i'w rhannu.

- 3.2 **SFGB** – Mae'r trafodaethau'n parhau â Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n debygol y bydd y trefniadau cyfredol ar gyfer y gwasanaethau cyngor ar ddyledion a ariennir trwy'r Ardoll Ariannol yn cael eu hystyngyn am flwyddyn arall. Er bydd y drefn o ariannu'r gwasanaethau hyn yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru o 1 Ionawr 2019 ymlaen, mae angen trafod sut i reoli contract y gwasanaethau hyn a sut y byddant yn cysylltu'n well â'r broses o ddarparu gwasanaethau cyngori ledled Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Phrif Swyddog Gweithredol SFGB ar 8 Hydref, yn ogystal â'r gwledydd datganoledig eraill, er mwyn cael mwy o eglurder o ran a oes modd cyflwyno swyddogaethau SFGB fesul tipyn. Cadarnhaodd AJ fod y *Financial Guidance and Claims Bill* yn ymrwymo'r corff newydd i gydweithio'n agos â'r gwledydd datganoledig, felly mae'r cyfarfod ar y cyd cynnar hwn yn gam cadarnhaol.
- 3.3 **Undebau Credyd** – mae cyllid Cyfalaf Trafodion Ariannol wedi'i sicrhau er mwyn helpu Undebau Credyd gyda'u cymhareb cyfalaf: asedau gorfodol ac er mwyn helpu i symud eu cynlluniau twf ymlaen. Mae dau gais am gyllid wedi'u cymeradwyo hyd yma, ac mae un cais arall dan ystyriaeth. Mae'r Undebau Credyd a'r rheoleiddwyr wedi croesawu'r arian ychwanegol hwn. Mae amryw o brosiectau refeniw ar droed ar hyn o bryd. Mae gwefan Undebau Credyd Cymru wedi'i hailwampio ac yn llawer haws i bori drwyddi – rydym yn annog aelodau'r Grŵp i gael golwg arni.
- 3.4 Atgoffodd AJ yr aelodau am Ddiwrnod Rhyngwladol Undebau Credyd ar 18 Hydref 2018, ac anogodd yr aelodau i barhau i hyrwyddo Undebau Credydau lle bo modd, yn enwedig cynhyrchion fel y cynllun didyniad o'r gyflogres.

- 3.5 **Cronfa Cymorth Dewisol (DAF)** – Mae'r galw'n dal i gynyddu gyda nifer y ceisiadau DAF i fyny i tua 8,000 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 6,000 y mis y llynedd, ac mae cyfartaledd o £250,000 y mis yn cael ei gynnig fel Taliadau Cymorth Brys ar hyn o bryd. Mae pwysau cynyddol ar gostau byw a'r newidiadau i'r wladwriaeth les wedi cael effaith heb os. Mewn ymateb i'r galw cynyddol hwn, mae rhai o feini prawf ceisiadau'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi newid, gan ei gwneud hi'n haws i ddyfarnu'r ceisiadau hynny a gefnogir gan bartneriaid. Mae'r gwaith o gysylltu â'r agenda ataliol yn parhau, trwy gyflwyno prosiect 'Resolution and Resilience' sydd ar waith yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Sir Gâr ar hyn o bryd. Nod y prosiect hwn yw annog aelwydydd i barhau i gadw mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cynghori (ar ôl datrys eu problem) er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n cyfrannu at yr angen i fynd at y Gronfa Cymorth Dewisol yn lle cyntaf, a ddylai, yn ei droi, leihau'r rhai sy'n gwneud cais dro ar ôl tro i'r Gronfa.
- 3.6 **Gwasanaethau Cynghori** – Rhoddodd Paul Neave (PN) y wybodaeth ddiweddaraf am y Fframwaith Ansawdd Cyngor a Gwybodaeth (IAQF). Bu rhywfaint o gysylltiad cadarnhaol â pherchnogion sylfaenol sydd fel petaen nhw'n fwy ymatebol i'r gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i weithredu'r Fframwaith. Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi cytuno i gyflwyno mân newidiadau i'r meini prawf, fel bod gennym feini prawf datblygiadol yn ogystal â'r meini prawf hanfodol. Mae hyn yn golygu os nad yw'r broses archwilio ansawdd IAQF ofynnol mewn lle erbyn dyddiad y cais, yna gall perchennog sylfaenol ddod yn Gorff Achrededig IAQF o hyd a chael cyfle i ddatblygu proses i'w rhoi ar waith o fewn 6-12 mis. Mae'r cais drafft cyntaf gan berchennog sylfaenol ar fin mynd trwy asesiad annibynnol cychwynnol.
- 3.7 Hefyd, mae pedwar perchennog sylfaenol yn cael cymorth i weld sut mae eu prosesau asesu ansawdd yn cyd-fynd â'r IAQF. Mae nifer o gynlluniau'n cael cymorth i ddatblygu eu polisiau a'u prosesau sicrwydd ansawdd. Y bwriad yw cofrestru mwy o ddarparwyr yn 2019.
- 3.8 Mae logo IAQF bellach wedi'i gynllunio a bydd yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd i berchnogion sylfaenol a darparwyr i ddangos eu bod nhw'n cydymffurfio â'r safonau IAQF.
- 3.9 Darparodd PN ddiweddiariad ar eitem 4.3 o gofnodion y cyfarfod blaenorol. Mae dros 120 o sefydliadau wedi cofrestru ar wefan Dewis Cymru erbyn hyn. Bydd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn edrych ar rai sy'n ymgysylltu'n lleol er mwyn annog mwy o ddarparwyr i roi eu manylion ar y wefan. Er hynny, mae'n bwysig osgoi ailadrodd gwybodaeth gwefannau eraill.
- 3.10 **Cronfa Gyngori Sengl** - Bydd cyflwyno'r Gronfa hon yn 2019 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr ddangos sut maen nhw'n gallu cyflwyno gwasanaethau yn unol â disgwyliadau a dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth cynghori a ariennir ganddi. Mae'n disgwyl gweld darpariaeth gwasanaeth gydlynol a fydd yn parhau i ddatblygu gydol oes y grant. Bydd angen canlyniadau at ddibenion monitro yn ogystal â

chanlyniadau tymor hirach. Mae timau Ymchwil a Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru wedi datblygu arolwg ar ganlyniadau i'w llenwi gan ddarparwyr cyn cynnal gweithdy i aelodau'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol a gynhelir ganol Hydref i drafod y canlyniadau. Mae hwn yn waith parhaus ac yn cynnwys ymgysylltu â mwy o randdeiliaid wrth fynd rhagddo. Holodd Jo Lovell (JL) a fyddai hyn yn cysylltu â'r Fframwaith Canlyniadau Gallu Ariannol. Cadarnhaodd PN mai felly fydd hi oherwydd cysylltiadau amlwg, ond gyda phwyslais ar ystyried yr effeithiau tymor hirach. Er bod LP yn cytuno y bydd gan y Gronfa Gyngori Sengl gylch gwaith ehangach, fe fydd rhai cysylltiadau â'r Fframwaith heb os.

- 3.11 **Resolution and Resilience Project** – Fel y soniwyd yn gynharach yn y cyfarfod, mae Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf wrthi'n gweithio gyda'r Gronfa Cymorth Dewisol i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n cyfrannu at geisiadau ailadroddus. Mae gan gynghorwyr sgript fymryn yn wahanol yn yr ardaloedd hyn, sy'n rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am y cymorth ychwanegol sydd ar gael. Yn ogystal â phrosesu'r arian, maen nhw hefyd yn eu hatgyfeirio at gymorth pellach. Y nod yw ystyried sut mae'r cysylltiad cyntaf yn cael ei wneud a sut i barhau â'r cysylltiad hwnnw. Mae cyfarfod cynnydd wedi'i drefnu ar gyfer 2 Hydref.
- 3.12 Mynegodd Graham Roberts (GR) ei ddiddordeb yn y prosiect hwn sy'n cynnwys elfennau tebyg i gynnis Cymorth Cyllidebu Personol yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac roedd yn cytuno, unwaith mae'r argyfwng cychwynnol wedi'i ddatrys, ei bod hi'n anodd parhau â'r cysylltiad. Yn ei brofiad ef, cydleoli gwasanaethau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o oresgyn y broblem atgyfeiriadau niferus.
- 3.13 Gofynnodd Helene Hayes (HH) a oedd unrhyw faterion GDPR e.e. rhannu gwybodaeth wrth atgyfeirio pobl, ac mae hi wedi cael adborth o bryderon ynghylch hyn. Cadarnhaodd PN fod y manylion personol lleiaf yn cael eu cadw - dim ond enw'r cleient a'r caniatâd i gysylltu ag e/hi. Hefyd, cyfeiriodd HH at y cysylltiad â'r digwyddiadau bywyd a bod y dystiolaeth yn awgrymu mai nawr yw'r adeg pan fo ymyriadau fel prosiect R&R yn gweithio orau. Diolchodd PN i HH, a gan fod hwn yn brosiect profi a dysgu, dywedodd ei fod yn croesawu unrhyw adborth pellach sydd gan yr aelodau.
- 3.14 Cyfeiriodd AJ yn ôl at bwynt HH am GDPR a gofynnodd i'r aelodau os oedden nhw wedi cael unrhyw anawsterau ers cyflwyno'r Rheoliad yn gynharach eleni. Dywedodd LH fod adborth awdurdodau lleol wedi bod yn gadarnhaol, a'i bod hi'n gyfle i ailedrych ar y rheolau, ac mewn rhai achosion mae mwy o hyblygrwydd bellach i rannu gwybodaeth o gymharu â'r adeg cyn i'r Rheoliad ddod i rym. Dywedodd LP ei bod wedi cael rhywfaint o broblemau, yn bennaf wrth rannu negeseuon e-bost, ond y byddai dealltwriaeth well o'r rheolau'n gwneud pethau'n haws. Cytunodd Jonathan Brenchley (JB) fod materion gyda gweithgareddau lefel isel fel dosbarthu e-byst ond bod llai o broblem gyda gwybodaeth lefel uchel.

- 3.15 Cyfeiriodd JL at Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) a allai helpu i oresgyn unrhyw broblemau GDPR. Os oes protocol ar waith, cytunodd AJ y gallai fod yn ddefnyddiol.

Cam gweithredu: EL i rannu rhagor o wybodaeth am WASPI.

4. **Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol**

- 4.1 Awgrymodd GR y gellir cau Cam 1.1 gan fod datblygiadau wedi'u gweithredu a bod y cynnwys bellach yn rhan o Gam 2.1. Cytunodd AJ ein bod ni wedi symud ymlaen o'r cam hwn ac y gellir ei gau, gan nad yw'r camau eraill yn berthnasol mwyach.

Cam gweithredu: EL i gau Cam Gweithredu 1.1 y Cynllun Cyflawni.

- 4.2 Awgrymodd HH fod modd symud rhai cyfraniadau Cyngor ar Bopeth o Thema 1 i Thema 3. Hefyd, mae ffigurau diweddaraf Credyd Cynhwysol ar gael i'w cynnwys yn y Cynllun Cyflawni.

Cam gweithredu: HH i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i EL.

- 4.3 Ategodd LP bwysigrwydd cydnabod y cysylltiadau rhwng Strategaeth Galluogrwydd Ariannol Cymru a Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru, gan awgrymu ein bod ni'n edrych ar y ffordd orau i nodi'r cynnydd yn erbyn y cam gweithredu heb ailadrodd.

5. **Adroddiad Blynyddol a Rhagolwg Cynhwysiant Ariannol**

- 5.1 Estynnodd AJ wahoddiad i'r aelodau roi adborth a/neu sylwadau ar gopi drafft o'r Adroddiad Blynyddol a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Gofynnodd LH am rywfaint o amser i ystyried yr adroddiad yn fanylach gan awgrymu rhoi adborth wythnos ar ôl y cyfarfod. Cadarnhaodd AJ fod hyn yn dderbyniol a chroesawodd sylwadau ysgrifenedig gan yr holl aelodau.

Cam gweithredu: Aelodau'r Grŵp Llywio i ddarparu adborth i EL drwy e-bost

6. **Dyfodol y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol**

- 6.1 Gyda chymaint o aelodau'r Grŵp Llywio yn aelodau o grwpiau perthynol eraill, gofynnodd AJ am sylwadau'r aelodau ar y posibilrwydd o uno rhai o'r grwpiau hyn, yn enwedig Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru ar Gynhwysiant Ariannol a Fforwm MAS Cymru.
- 6.2 Awgrymodd LH uniad posib rhwng dau Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru – Cynhwysiant Ariannol a Chynhwysiant Digidiol, gan fod nifer o'r un bobl yn aelodau o'r ddau grŵp. Cytunodd AJ trwy ddweud, er bod tipyn o gydweithio

rhwng y ddau grŵp yna, mae mwy o aelodaeth gyson rhwng FISG a Fforwm MAS.

- 6.3 Roedd LP yn cytuno bod y cynnig yn syniad da, ond bod angen gofalu nad yw blaenoriaethau unigol yn mynd ar chwâl. Cadarnhaodd LP y byddai'n hapus i'r ddau grŵp uno, ac o gofio'r amseriad, bod cyfle i gyflwyno'r argymhelliad hwn i'r SFGB newydd.
- 6.4 Y consensws cyffredinol oedd bod yr aelodau, mewn egwyddor, o blaid cyfuno'r ddau grŵp ac yn cytuno y byddai'n ffordd well o ddefnyddio amser ac osgoi ailadrodd. Fodd bynnag, roedd pawb yn derbyn y byddai angen rheoli unrhyw uniad yn ofalus er mwyn osgoi colli unrhyw gynnwys pwysig o'r naill grŵp na'r llall.
- 6.5 Atgoffodd AJ yr aelodau fod FISG yn Grŵp Gweinidogol, a bydd angen cyngor cyn gweithredu unrhyw newidiadau. Pe bai'r grwpiau'n cael eu huno, ni fyddai hynny'n digwydd cyn y flwyddyn newydd.

7. Unrhyw fater arall

- 7.1 **Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (CTF)** – Tynnodd AJ sylw'r aelodau at y faith fod y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant a lansiwyd ym mis Ionawr 2005 ac yn gymwys i blant a aned ar 1 Medi 2002 neu wedi hynny, wedi cyrraedd y cam lle gall derbynwyr reoli eu cyfrifon eu hunain erbyn hyn. Er nad oes modd codi'r arian hyd nes bod y plentyn yn ddeunaw oed, gallant reoli'r cyfrif o 16 oed ymlaen.
- 7.2 Llywodraeth y DU gyflwynodd y Gronfa gyda'r nod o sicrhau bod gan bob plentyn gynilion erbyn troi'n 18 oed, gan helpu plant i fagu'r arfer o gynilo tra'n addysgu manteision cynilo arian iddyn nhw a'u helpu i ddeall cyllid personol. Yng Nghymru, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu swm atodol i bob plentyn cymwys.
- 7.3 Cadarnhaodd AJ fod y mater ar radar Gweinidogion, a bod cyfle i gysylltu hyn â gwaith gallu ariannol Llywodraeth Ariannol a MAS. Gydag oddeutu 273,000 o blant â chyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried sut gallwn ni eu helpu yn y camau cynnar.
- 7.4 Roedd JB yn cytuno bod angen sicrhau bod y rhai sydd â'r cyfrifon hyn yn gwybod eu bod nhw'n bodoli. Bydd achosion o bobl yn newid cyfeiriad, ac mewn rhai achosion, efallai nad yw'r darparwyr gwreiddiol yn bodoli mwyach (Northern Rock, Bradford and Bingley etc) felly efallai bod llawer ddim callach am y cyfrifon hyn.
- 7.5 Cadarnhaodd LP fod hyn yn rhywbeth y mae cydweithwyr yn Llundain yn ymwybodol ohono ac yn ymchwilio ymhellach i'r mater. Hefyd, awgrymodd LP y gellid hyrwyddo hyn ystod Wythnos Siarad am Arian ac y bydd yn gofyn i Youth Cymru bwysleisio'r mater.

- 7.6 Er bod dwy flynedd arall i godi ymwybyddiaeth, dywedodd AJ ei bod hi'n bwysig mynd i'r afael â'r mater nawr.
- 7.7 **Sgamiau** - Er bod hwn yn faes polisi trawsbynciol, y tîm Cynhwysiant Ariannol sydd wedi bod yn llywio rhai o'r gweithgareddau diweddar. Bydd Uwchgynhadledd Sgamiau yn cael ei chynnal yn Stadiwm Liberty Abertawe ar 28 Medi, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn annerch.
- 7.8 Yn ôl JB, tra bod pwyslais ar hyn o bryd ar dwyll ar garreg y drws a drwy'r post, mae cynnydd sylweddol mewn twyll digidol hefyd. Roedd George Jones (GJ) yn cytuno bod y pwyslais yn dueddol o fod ar bobl hŷn, ond mae pawb mewn perygl. Yn wir, gellir cysylltu hyn â'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant y trafodwyd yn gynharach, a phosiblwydd o dargedu pobl ifanc wrth iddyn nhw gael gafael ar eu harian mewn 2 flynedd.
- 7.9 Yn yr un modd, dywedodd JB fod mwy a mwy o bobl yn penderfynu optio allan o gynlluniau pensiwn galwedigaethol a allai fod yn agored i niwed yn sgil sgamiau pensiwn. Er bod Pension Wise yn cynnig cyngor i ran dros 55 oed, mae pobl eraill yn trosglwyddo eu harian pensiwn cyn yr oedran hwn heb fawr o gyngor priodol os o gwbl.
- Diweddariad:** Ers y cyfarfod, dywedodd HH fod canllawiau Pension Wise ar gael i bawb dros 50 oed. Hefyd, gofynnodd HH i JB a yw'n ymwybodol o unrhyw ddulliau ychwanegol y gall Cyngor ar Bopeth eu defnyddio yng Nghymru i hysbysebu cwmplas Pension Wise i rai a all fod yn ystyried optio allan o gynlluniau pensiwn galwedigaethol, i roi gwybod iddi.
- 7.10 **Ymgynghoriad 'Breathing Space'** – Atgoffodd PN yr aelodau y bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei lansio yn yr hydref, ac anogodd pawb i ymateb.

8. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

- 8.1 Cytunwyd y cynhelir cyfarfod nesaf yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd

**Uned Cynhwysiant Ariannol
Hydref 2018**